# NEUADD BENTREF RHIWLAS VILLAGE HALL



Mawrth / March 2023





## Celf cynefin cymuned

## Community art

Ar ddydd Sadwrn 28 Ionawr daeth y gymuned ynghyd i ddigwyddiad dadorchuddio'r paneli teils.

Yn mis Tachwedd 2022 cynhaliwyd nifer o weithdai clai dan arweiniad Lyn Gallagher, Penmon Pottery.

Ffrwyth gwaith y rhai fynychodd y gweithdai, ynghyd â gwaith rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Rhiwlas, sydd nawr i'w weld yn yr ystafell gymunedol a ger y gegin yn y neuadd.

Arianwyd y prosiect gan Mantell Gwynedd mewn cydweithrediad â Phwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Rhiwlas.

Dywedodd Elfyn Jones-Roberts, Cadeirydd y Neuadd Bentref, "Mae di bod yn brofiad gwych; gweld pawb yn dod at ei gilydd ac yn defnyddio'r neuadd at bwrpas cymunedol. Mae croeso i chi ddod draw i'r neuadd i weld y paneli, ma' nhw'n werth ei gweld.''

On Saturday 28 January the community came together for the unveiling of the tile panels.

During November 2022 a series of clay workshops were led by Lyn Gallagher, Penmon Pottery.

The display, which can be viewed in the community room and next to the kitchen, is the culmination of those workshops; exhibiting the work of some pupils from Ysgol Gynradd Rhiwlas and those who attended.

The project was funded by Mantell Gwynedd in partnership with Rhiwlas Village Hall Management Committee.

Elfyn Jones-Roberts, Village Hall Chair said, "It's been a wonderful experience seeing everybody come together and using the hall as a community facility. You are welcome to come to the hall to the see the panels, they are worth a visit. ''



# Calendr Neuadd / Hall Calendar

**Digwyddiadau wythnosol / Weekly activity**

**Llun/Mon:** Clwb crefft Rhiwlas craft club, 19:00 – 21:00
**Mer/Weds:**
- Cymorth Digidol (Am ddim) / IT Support (Free), 10:00 – 12:00
- Sesiwn Ioga / Yoga Sessions, 19:30 – 20:30

**Gwe/Fri:** Clwb Tenis Bwrdd / Table Tennis Club, 19:30 – 20:30
**Sul/Sun:** Gwasanaeth Capel/Church Service, 10:00-11:00

**Digwyddiadau misol / Monthly activity in the hall**

**Maw/Tues:** Merched y Wawr, 13:30-14:30
**Mer/Weds:** Clwb Rhiwen, bob 2il/4ydd Mercher, 2nd/4th Weds every month, 14:00-15:00
**Iau/Thurs:** Clwb Unrhyw Lyfr / 'Any Book' Club, 19:00-20:30

## Mawrth / March

**11 - BINGO Neuadd, 6:30pm**
**18 - Cwis i'r teulu / Family quiz**
**31 - Cyngerdd mawreddog er budd Eisteddfod Boduan 2023 gyda RHYS MEIRION in concert**

## Ebrill / April

**6 - BINGO Cyfeillion / Friends 6:30pm**
**15 - Coffi a cacen / coffee and cake**
**22 - Dawnsio llinell / Line Dancing**

## Mehefin /June

**10 - BINGO**

## Gorffennaf / July

**22 Cwis / Quiz**

### Noddi'r cylchlythyr

Hoffwn ddiolch i Elwyn Jones am noddi rhifyn yma o'r cylchlythyr. Os hoffech chi, neu'ch busnes, noddi'r cylchlythyr cysylltwch â Beth ar 07788853546

### Sponsoring the newsletter

We'd like to thank Elwyn Jones for sponsoring this edition of the newsletter. If you, or your business, would like to sponsor the newsletter please contact Beth on 07788853546

http://www.neuaddrhiwlas.cymru/

https://www.facebook.com/pentref.rhiwlas.9

@NeuaddRhiwlas

Elfyn 07786 554 890

post@neuaddrhiwlas.cymru

# Dod i adnabod y pwyllgor / Meet the committee



**Elwyn Jones**
(CYNG/COUN)

Un o'r 3 sydd wedi eu hethol ar bwyllgor y Neuadd ydi Elwyn ac wedi bod yn gadeirydd tan llynedd. Mae Elwyn yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd am eleni, cyn blismon, cyn athro, cyn chwarelwr, cyn weithiwr ieuenctid a 'hobby farmer'
Wedi defnyddio'r Neuadd fel Aelod, fel Arweinydd Clwb Ieuenctid ac wedi cynnal partion plant pan oedd rheini'n fychan!

One of 3 elected members to the hall committee and chair until last year, Elwyn is currently Chair of Gwynedd Council, but has been a policeman, teacher, quarryman, youth worker and a 'hobby farmer'. He has used the hall as a Member, Youth Work Club leader and as a party venue for his children when they were much younger!



Mae **Sharon Griffith** yn cynrychioli Cyfeillion Rhiwlas ar y pwyllgor. Yn aelod diwyd, mae hi'n helpu trefnu digwyddiadau'r neuadd. Mae hi'n rhan o'r tim sy'n trefnu, ac yn mynychu'r clwb crefft a clwb llyfrau.

**Sharon Griffith** represents Cyfeillion Rhiwlas on the Committee and helps with arranging hall events. She is involved with and attends the craft club and the book club.

Mae **Steffan Job** yn cynrychioli'r ysgol ar y pwyllgor. Dywed Steffan: "Dwi di mwynhau defnyddio'r neuadd dros y blynyddoedd diwethaf i bob math o bethau, ond wedi wir gwerthfawrogi defnyddio'r neuadd i wasanaethau Capel y Ffynnon."



Ffaith diddorol: roedd Steffan yn arfer hyfforddi un o chwaraewyr presennol tim rygbi Cymru!

**Steffan Job** represents the school on the committee. He says of the hall: "I've enjoyed using the hall for all sorts of things, but really appreciate using the hall for Capel y Ffynnon services on a Sunday."
Fun fact: Steffan used to train one of the current players in the Wales rugby team!

